



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dianc yn Fyw



Larymau Mwg

Y ffordd orau ichi ddiogelu eich hun a'ch cartref yw cael larymau mwg wedi eu gosod yn iawn. Gall y Gwasanaeth Tân ac Achub gynnal archwiliad diogelwch rhag tân yn eich cartref yn rhad ac am ddim, a gosod larymau mwg os oes angen. Ffoniwch **0800 169 1234** i drefnu ymweliad.

Gwnewch yn siŵr fod eich larymau mwg yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Profwch nhw unwaith yr wythnos ac, oni bai bod batris 10-mlynedd ynddynt, newidiwch y batris o leiaf unwaith y flwyddyn.

Lluniwch Gynllun

Pan fydd eich larwm mwg chi'n canu, fyddwch chi'n gwybod beth i'w wneud?

- Lluniwch gynllun dianc ar gyfer eich cartref. Dihangwch yn fyw.
- Trafodwch eich cynllun dianc gyda phawb sy'n byw yn eich cartref, yn enwedig plant, yr henoed a phobl anabl.
- Eich llwybr dianc gorau yw eich ffordd arferol i mewn ac allan o'r adeilad, felly cadwch e'n glir.
- Meddyliwch am yr anawsterau y gallech chi neu eraill ddod ar eu traws wrth ddianc, er enghraifft petai rhaid dianc liw nos.
- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn gwybod lle mae allweddî'r ffenestri a'r drysau.
- Ystyriwch ail lwybr dianc hefyd, rhag ofn nad oes modd ichi ddefnyddio'r cyntaf.
- Penderfynwch ar y ffyrdd cyflymaf a mwyaf diogel o ddianc o bob rhan o'r tŷ.



Cofiwch Ymarfer eich Cynllun Dianc

Bob yn hyn a hyn, treuliwch rai munudau yn ymarfer y llwybr dianc gyda phawb sy'n byw yn y tŷ.

- Ailedrychwch ar eich cynllun yn rheolaidd, yn enwedig os ydych chi'n gwneud newidiadau i'ch cartref.
- Gwnewch yn siŵr y gall pawb ddatgloi ac agor y drysau a'r ffenestri yn rhwydd.
- Cofiwch gau'r drysau y tu ôl ichi.

Mewn achos o dân

- Teimlwch ddolenni drysau gyda chefn eich llaw. Os ydy'r ddolen yn gynnes, peidiwch ag agor y drws.
- Os nad ydy'r ddolen yn gynnes, agorwch y drws yn ofalus



a dilynwch y llwybr dianc rydych chi wedi ei ddewis, gan gropan o dan unrhyw fwg.

- Os ydy hi'n amhosib ichi ddianc, casglwch bawb mewn un ystafell - yn ddefnyddol ystafell sydd â ffenestr a ffôn.
- Caewch y drws, rhowch glustogau a dillad gwely o amgylch gwaelod y drws i rwystro'r mwg.
- Ffoniwch 999 a gofyn am y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n syniad da cadw ffôn symudol wrth law.
- Ewch draw at y ffenestr, agorwch hi ac arhoswch yno i gael awyr iach ac i'r diffoddwyr tân eich gweld.
- Os ydych chi ar y llawr gwaelod, efallai y byddwch chi'n gallu dianc drwy ffenestr. Os ydych chi'n uwch i fyny, peidiwch ag ystyried gwneud hynny oni bai eich bod chi mewn perygl dybryd.
- Os ydych chi angen torri ffenestr, defnyddiwch rywbeth blaenllym i dorri cornel waelod y gwydr. Yna gallwch fwrw gweddill y gwydr allan. Byddwch yn ofalus o'r ymylon miniog. Gorchuddiwch nhw â thyweli neu flancedi er mwyn eich diogelu eich hun.
- Os ydych chi mewn perygl dybryd, a'i bod yn ddiogel ichi wneud hynny, taflwch ddillad gwely allan o'r ffenestr a gostyngwch eich hunan tua'r llawr – peidiwch â neidio.
- Peidiwch byth â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad am unrhyw beth - hyd yn oed am anifail anwes. Arhoswch am y Gwasanaeth Tân ac Achub a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl iddynt.



Os ydy eich dillad yn mynd ar dân

- Peidiwch â rhedeg o gwmpas.
- Gorweddwch ar y llawr a rholiwch.
- Os oes rhywun arall ar dân, dywedwch wrthyn nhw am orwedd ar y llawr a mygwch y fflamau â deunydd trwm fel cot, blanced neu flanced dân.
- Stopio, syrthio, rholio!

Galw'r gwasanaethau brys

- Unwaith rydych chi wedi dianc, ffoniwch 999.
- Siaradwch yn bwyllog a chlir.
- Rhowch y cyfeiriad llawn, gan gynnwys enw'r dref a'r cod post.
- Os oes unrhyw un wedi ei ddal yn yr adeilad, esboniwch hynny a dywedwch ym mha ystafell maen nhw.

I gael archwiliad diogelwch rhag tân yn eich cartref yn rhad ac am ddim, ffoniwch

0800 169 1234
www.fflachtan.org

**Ewch allan,
arhoswch allan
a ffoniwch
999**



**Profwch
bob
wythnos**



75% wedi'i ailgylchu

Ar ôl gorffen â'r papur yma,
cwtich ei ailgylchu

G/327/07-08
CMK-22-10-065 (004)
© Hawfaint y Goron 2007